



# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a’ch Treth Gyngor 2026/2027



# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn darparu Gwasanaeth Tân ac Achub i gymunedau Gogledd Cymru - poblogaeth o fwy na 688,000 o bobl. Mae gan y Gwasanaeth 44 o orsafoedd tân ar draws 6 sir Gogledd Cymru.

Mae'r daflen hon yn rhoi cyfle i ni egluro ein sefyllfa ariannol i chi, yn ogystal ag amlygu'r gwaith rydym yn ei gyflawni fel Gwasanaeth Tân ac Achub.

## Beth rydyn ni'n ei wneud fel Gwasanaeth Tân ac Achub

Isod rhestrir y prif wasanaethau a ddarparwn i chi:

**Atal** tanau ac argyfyngau eraill rhag digwydd, trwy ymwneud yn llwyddiannus â'n cymunedau, a lleihau'r effeithiau os yw tanau ac argyfyngau eraill yn digwydd trwy hyrwyddo mesurau diogelwch.

**Diogelu** ein cymunedau, trwy roi cyngor i fusnesau a chyflwyno mesurau gorfodi cyfreithiol yn erbyn y rhai nad ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch tân.

**Ymateb** i argyfyngau yn gyflym, gyda phobl, offer a dulliau hynod effeithiol.

Mae'r gwasanaeth a ddarparwn yn seiliedig ar risg ac nid ar alw. Mae amrywiaeth y risgiau, dros ardal ddaearyddol enfawr, yn amrywio o:


- Ddiwydiannau mawr yn nwyrain gogledd Cymru, yn ogystal â phorthladd fferi a 2 faes awyr
- Yn cwmpasu Parc Cenedlaethol Eryri, arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol
- Cymunedau ffermio a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ledled yr ardal.
- Mewnlifiad uchel o dwristiaid yn ystod misoedd yr ha

# Cyllid


Mae pob Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys nifer o ardaloedd cynghorau sir a bwrdeistref sirol. Mae'r Cynghorau'n derbyn arian gan Lywodraeth Cymru, sef y Grant Cynnal Refeniw. O'r cyllid hwn y mae'n rhaid i'r Cynghorau dalu'r ardoll.

Bob Rhagfyr mae'r Awdurdod yn rhoi amcangyfrif i'r cynghorau sir o'i ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod (Ebrill i Fawrth), ac yn cadarnhau hyn erbyn 15 Chwefror yn y flwyddyn ganlynol. Mae faint y mae pob cyngor sir yn ei gyfrannu yn cael ei gyfrifo ar sail ei boblogaeth, felly mae cynghorau â ffigurau poblogaeth is yn talu llai na'r rhai sydd â ffigurau uwch.

Ar gyfer 2026/27 y symiau yw:




Er bod yr Awdurdod wedi pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27, mae ansicrwydd yn parhau ynghylch y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn bennaf oherwydd newidiadau i ddyfarniadau cyflog cenedlaethol, chwyddiant, a lefel y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr Awdurdod yn parhau i reoli ei gyllid yn ofalus er mwyn sicrhau y gall ddarparu Gwasanaeth Tân ac Achub diogel a dibynadwy i gymunedau Gogledd Cymru.



# Y Gyllideb

Gofyniad cyllideb 2024/25 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw £54.104 million.

## Heriau ariannol sydd i ddod

Y brif ffynhonnell ariannu y mae'r Awdurdod yn dibynnu arni i ddarparu ei wasanaethau i'r gymuned yw'r ardoll a dderbynnir gan y 6 chyngor yng Ngogledd Cymru.  Yn ogystal, mae'r Awdurdod hefyd yn derbyn rhywfaint o arian grant gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r hyn rydym yn gwario ein cyllideb arno i'w weld yn y tabl isod

| Amcangyfri 2025/26 £m | Incwm a Gwariant | Cyllideb 2026/27 £m |
|---|---|---|
| 37.419 | Gweithwyr | 39.574 |
| 3.344 | Eiddo | 2.578 |
| 1.671 | Cludiant | 1.405 |
| 5.732 | Cyflenwadau, Gwasanaethau a Thaliadau Trydydd Parti | 7.484 |
| 4.906 | Ariannu Cyfalaf | 4.501 |
| -1.406 | Incwm | -1.166 |
| **51.667** | **Gofyniad Cyllideb** | **54.375** |
| 0 | Defnyddio Cronfeydd wrth gefn | -0.271 |
| **51.788** | **Ardoll yr Awdurdodau Lleol Cyfansoddol** | **54.104** |

Fel sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, mae'r Awdurdod yn wynebu heriau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd nesaf ac mae'n rhaid i ni barhau i weithio'n galed i sicrhau y gallwn barhau i ddarparu lefel uchel o wasanaeth am gost is.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut mae'r Awdurdod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol yn ei Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, sydd ar gael yma

# Eich Treth Cyngor

Mae eich treth gyngor yn helpu i dalu am wasanaethau lleol, gan gynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub, yr heddlu, a'ch cyngor lleol. Mae'r adran hon yn dangos y rhan o'ch treth gyngor sy'n cyfrannu at ariannu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos faint mae hyn yn ei gostio ar gyfartaledd.

| 2025/26 | | 2026/27 |
|---|---|---|
| £74.93 | Cost fesul person yng Ngogledd Cymru | £77.61 |
| £160.87 | Cost gyfartalog fesul eiddo treth gyngor yng Ngogledd Cymru | £166.89 |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



# Cysylltu â Ni

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

**Ebost:** enquiries@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Ffôn:** 017455 535 250
Dim ond yn ystod oriau swyddfa o ddydd Llun i ddydd Gwener y caiff ymholiadau eu monitro – **deialwch 999 mewn argyfwng**

